

# Sut mae Storm Drofannol yn ffurfio?



Gosodwch y brawddegau hyn yn y drefn gywir ar y siart:

**Yn olaf,** y perygl mwyaf yw'r glaw mawr a ddaw o'r holl gymylau. Yn aml iawn mae hyn yn achosi llifogydd a thirlithriadau.

Wedyn, wrth i'r **aer cynnes godi**, mae mwy o aer yn rhuthro oddi ta-no i gymryd ei le gan achosi **gwyntoedd cryfion.**

Mae'r **gwyntoedd troellog** yn achosi tonnau uchel a lefelau môr uchel sy'n cael eu galw'n ymchwydd storm.

Mae'r gwynt cryf yn **chwyrlïo'n droellog** gan achosi'r cymylau dreolli hefyd,

**Nesaf**, wrth i'r **aer cynnes** godi, mae'n oeri ac mae anwedd dŵr yn ffurfio cymylau.

**Yn gyntaf,** mae'r gwres o'r môr yn cynhesu'r aer uwch ei ben. Mae'r **aer cynnes** yn codi dros y dŵr cynnes.